**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE STANDARDS COMMITTEE**

**SUBJECT:** **STANDARDS COMMITTEE - DYDD MERCHER, 29 IONAWR 2020 DYDD MERCHER, 29 IONAWR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: R. ALEXANDER (CADEIRYDD)

| |
|---|
| Mr R. Alexander (Cadeirydd) |
| Cynghorydd Keith Hayden (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Amanda Moore (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorwydd Godfrey Thomas (Aelod Pwyllgor) |
| Mr. J. Price (Aelod Pwyllgor) |
| Miss H. Roberts (Aelod Pwyllgor) |
| J. Thomas (Aelod Pwyllgor) |
| Mr. S. Williams (Aelod Pwyllgor) |
| Mr. J. Evans (Aelod Pwyllgor) |
| |
| |

WITH:

| |
|---|
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Steve Berry (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac adroddwyd yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:<br><br>Cynghorydd G. Thomas a Mr. J. Evans. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan ddywedodd y Cadeirydd y credai y gwneir mwy o geisiadau am oddefebau mewn awdurdodau eraill nag ym Mlaenau Gwent.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol fod hyn yn dueddiad hirsefydlog ym Mlaenau Gwent am resymau a ystyriwyd yn flaenorol. Roedd Aelodau wedi cael hyfforddiant fod goddefebau ar gael fel rhan o'u proses sefydlu a darperir hyfforddiant gloywi hefyd. Mae ffurflenni cais ar gyfer goddefebau ar gael i Aelodau ynghyd â chanllawiau ar pryd i wneud cais.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod goddefebau yn dod yn bwysig lle mae nifer gyfartal bron mewn cynrychiolaeth wleidyddol rhwng partïon, yn arbennig wrth bleidleisio ar faterion dadleuol ac yn y blaen. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn fater mor bwysig ym Mlaenau Gwent oherwydd bod mwyafrif clir o Aelodau Annibynnol. Roedd y seiliau ar gyfer gweithredu goddefebau hefyd yn gyfyngedig ac fel canlyniad roedd Aelodau ym Mlaenau Gwent yn fwy tebygol o ddatgan buddiant a pheidio cymryd rhan os oes angen.<br><br>Ychwanegodd y Swyddog, er y gall godi ymwybyddiaeth fod goddefebau ar gael, na fedrai ddylanwadu ar Aelodau i wneud cais. Roedd seiliau goddefebau yn gul a dywedodd y Swyddog fod mwyafrif y materion a drafodir gydag Aelodau yn nhermau datganiadau buddiant yn dod o fewn categori goddefebau posibl. Fodd bynnag, byddai'n edrych lle gellid cryfhau proffil goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2019.<br><br>CYTUNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 5 | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON (ELFEN YMDDYGIAD)</u>**<br><br>Cyfeiriodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol at yr adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt cwynion gwasanaeth a chwynion Cod Ymddygiad Aelodau.<br><br>Cyhoeddwyd Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon yn yr Haf, a chadarnhaodd y Swyddog y rhoddwyd adroddiad amdano i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor i'w ystyried.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo, yn arbennig dudalen 58 sy'n rhoi data cymharol ar gyfer 2018/19 a 2017/18 yng nghyswllt cwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gyfer y ddwy flynedd am dorri Cod Ymddygiad yn erbyn unrhyw Aelodau o'r Awdurdod Lleol.<br><br>Mae gan y Pwyllgor Safonau hefyd rôl wrth oruchwylio ymddygiad Cynghorau Tref a Chymuned, a chaiff manylion y rhain hefyd eu hamlinellu ar dudalen 58 yr adroddiad.<br><br>Yn nhermau meincnodi, dywedodd y Swyddog fod y gyfradd o gwynion a dderbynnir ym Mlaenau Gwent yn gyffredinol is nag mewn awdurdodau lleol eraill.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a'r effaith bosibl ar Bwyllgorau Safonau.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Swyddog ei fod yn debygol o effeithio mwy ar awdurdodau iechyd nag ar awdurdodau lleol.<br><br>Gofynnodd Aelod am y sefyllfa ar gyfer 2019/20, a chadarnhaodd y Swyddog y cyflwynwyd nifer o gwynion i'r Ombwdsmon yng nghyswllt cynghorau tref a chymuned, ac y cafodd un gŵyn yng nghyswllt yr awdurdod lleol ei thynnu'n ôl. | |
| No. 6 | **<u>YSTYRIED ENGHREIFFTIAU O LYFR ACHOSION YR OMBWDSMON</u>**<br><br>Roedd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Corfforaethol Chyfreithiol wedi dweud yn y cyfarfod diwethaf y bu trafodaeth am y mathau o gwynion a gyflwynir i'r Ombwdsmon. Mae'r Ombwdsman wedi | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyhoeddi canfyddiadau achosion unigol a chafodd yr wybodaeth ei chasglu yn Llyfr Achos Cod Ymddygiad. Cylchredwyd copïau o'r Llyfr Achos i Aelodau a bu trafodaeth am y crynodebau achos a amlygir ynddo.<br><br>Dywedodd y Swyddog nad oedd unrhyw hawl apêl ar gyfer achwynydd pe byddid yn canfod nad yw Aelod yn torri'r cod ymddygiad. Mae proses adolygu y gellid ei dilyn yn annibynnol, ond dim hawl ffurfiol i apelio.<br><br>Dilynodd trafodaeth bellach pan ddywedodd Aelod fod Llyfr Achos yr Ombwdsmon yn ddefnyddiol iawn i Aelodau a CHYTUNWYD y byddai hyn yn dod yn eitem sefydlog i'w thrafod ar agendâu yn y dyfodol. | |
| **No. 7** | **<u>DIWEDDARIAD PAR: PWYLLGOR SAFONAU ARALL Y CYNGOR</u>**<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol y gofynnwyd iddi yn y cyfarfod diwethaf i wneud ymholiadau gyda Phwyllgorau Safonau awdurdodau lleol eraill am sut y gweithredant a pha mor aml y cynhelir cyfarfodydd.<br><br>Yn dilyn trafodaethau gyda Swyddogion Monitro eraill ac edrych ar wefannau Cynghorau eraill, dywedodd y Swyddog fod amlder cyfarfodydd yn amrywio. Roedd Cyngor Dinas Caerdydd yn cwrdd yn fwy aml gan fod ganddynt fwy o fusnes i'w drafod a hefyd geisiadau am oddefebau ac mae'r awdurdodau hynny gyda nifer fawr o Gynghorau Tref a Chymuned hefyd yn cwrdd yn fwy aml. Fodd bynnag, mae ein hawdurdodau cyfagos yn ymddangos yn debyg i Blaenau Gwent ac mae Cynghorau eraill hefyd wedi cytuno ar weithdrefn datrysiad lleol.<br><br>Yng nghyswllt trafodaethau blaenorol am Aelodau yn arsylwi cyfarfodydd y Cyngor, dywedodd y Swyddog nad oedd dim o'r Pwyllgorau Safonau y gwnaeth ymholiadau gyda nhw yn gwneud hyn. Roedd rhai Cynghorau wedi awgrymu na fyddent yn annog aelodau eu Pwyllgorau Safonau i arsylwi cyfarfodydd gan y gallai ragfarnu gwrandawiadau'r dyfodol o Bwyllgorau Safonau, yn nhermau y posibilrwydd y byddai Aelod yn dyst i unrhyw gwynion yn deillio o'r cyfarfodydd a arsylwyd.<br><br>Dywedodd y Swyddog mai cyfrifoldeb y Swyddog Monitro yw | |

| | | |
|---|---|---|
| | arsylwi ymddygiad mewn cyfarfodydd, a rhoddodd sicrwydd y byddid yn rhoi blaenoriaeth ar unwaith i unrhyw faterion o ymddygiad. Dywedodd hefyd fod mwyafrif y toriadau yn digwydd tu allan i amgylchedd cyfarfodydd ffurfiol.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd ei fod hefyd yn y cyfarfod diwethaf wedi ymgymryd i roi adborth fel Aelod o Bwyllgor Safonau Bro Morgannwg a Phwyllgor Safonau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Dywedodd fod y ddau awdurdod wedi mabwysiadu'r weithdrefn o'i gwneud yn ofynnol i Aelodau Pwyllgor Safonau fynychu cyfarfodydd eraill. Mae Pwyllgor Safonau Bro Morgannwg yn cwrdd 4 neu 5 gwaith y flwyddyn, a disgwylir i Aelodau fynychu dau gyfarfod Cyngor ym mhob cylch blynyddol a dau gyfarfod o Gyngor Tref a Chymuned. Roedd Safonau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn fwy ar gam datblygu a gofynnwyd i Aelodau fynychu un cyfarfod arall o'r Awdurdod. Roedd wedi mynychu un cyfarfod a byddai'n mynychu un arall yn y dyfodol agos.<br><br>Soniodd Aelod arall am ei phrofiad o Bwyllgorau Safonau eraill a dywedodd ei fod yr un fath â Blaenau Gwent yn nhermau amlder cyfarfodydd. Derbyniai sylw'r Swyddog y gallai arsylwi cyfarfodydd ragfarnu ymgyfraniad Aelodau pe byddai unrhyw faterion o ymddygiad yn codi.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan ddywedodd y Swyddog na chredai fod angen i Aelodau fynychu cyfarfodydd gan fod hyn yn rhan o'i rôl hi. Fodd bynnag, byddai'n awgrymu y gallai Aelodau fynychu pe byddai unrhyw broblemau sy'n ailddigwydd. Dywedodd hefyd y gall yr Awdurdod gyflwyno gwe-ddarlledu cyfarfodydd yn y dyfodol ac y byddai hyn yn galluogi Aelodau i arsylwi cyfarfodydd drwy wefan y Cyngor.<br><br>CYTUNWYD y byddid yn trafod y mater hwn eto yn y dyfodol. | |
| **No. 8** | **<u>CYNLLUN GWAITH Y DYFODOL/GOFYNION HYFFORDDIANT</u>**<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol fod uchafswm cyfnod swyddi Mr. J. Evans a Mr. J. Price yn dod i ben ar 25 Gorffennaf 2020. Cadarnhaodd y byddai'r broses recriwtio yn dechrau yn y Gwanwyn, gyda chyfarfod ym mis Mehefin i drafod ceisiadau.<br><br>Yng nghyswllt hyfforddiant, cadarnhaodd y Swyddog y cynhelir sesiwn hyfforddiant i gynnwys Aelodau newydd ym mis Medi. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 9** | **UNRHYW FATER ARALL/DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**<br><br>Cyfeiriodd Aelod at Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r effaith bosibl ar Bwyllgorau Safonau, yn nhermau'r gofyniad i gynhyrchu adroddiadau blynyddol, ac awgrymodd y dylid cael diweddariad ar ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth newydd.<br><br>Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog fod yr Awdurdod wedi ymateb i nifer o feysydd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Dywedodd y cynigiwyd fod Arweinwyr Grŵp yn cael mwy o gyfrifoldeb am ymddygiad o fewn eu grwpiau gwleidyddol, a dywedodd y Swyddog y credai hi mai'r rheswm pam fod nifer y problemau ymddygiad yn isel ym Mlaenau Gwent oedd bod Arweinwyr Grŵp eisoes yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr a hithau fel Swyddog Monitro, a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, i fonitro ymddygiad a'u bod yn cael sgyrsiau cynnar i ddatrys problemau.<br><br>Mae mwyafrif helaeth y Bil yn ymwneud â democratiaeth; fodd bynnag dywedodd y bydd yn edrych ar y materion hynny fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Pwyllgor Safonau, a hefyd yn cylchredeg crynodeb o brif ddarpariaethau'r Bil i Aelodau.<br><br>CYTUNWYD cynnal y cyfarfod nesaf ddechrau mis Mehefin 2020. | |